

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor– nos Iau, Medi 6ed, 2018 yn brydlon am 7-00 y.h. yn **Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Orffennaf 5ed, 2018.
3. Arwyddo cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd.
4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
5. Datgan buddiant personol.
6. Cyngor Gwynedd.
 1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned: ffyrdd ger Gaerddu Fawr a Betws Bach, Penbryn i Dalar Deg a gwelededd drwy dro Pont Rhydybenllig B4411.
 2. Deddf Rheoli Trafnidiaeth y Ffyrdd 1984- Adran 14(2) wedi ei gywiro gan y ddeddf trafndiaeth ffordd (cyfyngiadau dros dro) 1991.
Cyngor Gwynedd – cau'r ffordd dosbarth 111 rhwng Arfryn a Gelli Gron, Llanarmon; gwaharddiad trafndiaeth trwodd dros dro.
 3. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Ymarferiad Ffordd Gwynedd a'r Gwasanaeth Cynllunio.
 4. Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; ceir yn parcio ar y ffordd ger tai Glanwern, Chwilog.
 5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Medi 2018.
 6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; biniau baw ci Afonwen a'r Lôn Goed.
 7. Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Rheolwr Uned Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd; Cludiant Cymunedol.
7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
 1. Cais Rhif C18/0547/41/LL – Codi estyniad blaen; Trefin, Chwilog.
Dim gwrthwynebiad.
 2. Cais Rhif C18/0176/41/LL – Cais llawn i ddymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd; Llain Gam, Chwilog.
Cefnogi.
 3. Cais Rhif C18/0544/41/LL – Newidiadau i gynllun a ganiateir o dan C13/0062/41/LL gan gynnwys cadw estyniadau yn lle eu dymchwel, dymchwel lolfa haul bresennol a chodi estyniad deulawr yn ei le, codi estyniadau unllawr ar ffurf iard caeedig, estynnu modurdy/sied goed; Pencaemelyn, Llanystumdwy.
Cefnogi.
 4. Cais Rhif C18/0573/41/LL – Codi llety gwyliau pwrpasol yn lle carafan statig bresennol; Swn y Môr, Chwilog.
Gwrthwynebu achos gor ddatblygu, mae gormodedd o lety hunan ddarpar yn agos iawn i'r safle yma.
Pe byddai'r awdurdod Cynllunio yn penderfynu caniatáu'r cais yna dylid cael yr amodau hyn.
 - a. Mai fel uned gwyliau yn unig y dylai hwn fod a bod y perchennog i gadw cofrestr o'r rhai sydd yn defnyddio'r eiddo a bod y gofrestr honno ar gael i'w archwilio gan swyddogion y Cyngor ar unrhyw adeg, fel gyda safle carafannau. Does dim hawl i unrhyw un fyw ynddo yn barhaol.
 - b. Fod yr eiddo i fod yn iswasanethol i Swm y Môr a dim hawl i'w werthu ar

wahân.

c. Dim caniatâd i ragor o ddatblygiadau ar y safle heb ganiatâd cynllunio, waeth beth yw eu maint.

5. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 –Apêl o dan Adran 78(1)

Cyf. Cyngor Gwynedd C18/0109/41/RC – cais i dynnu Cytundeb 106 fforddiadwy; Dolafon, Llanystumdwy. Penderfyniad gwreiddiol y Cyngor yma ar Fawrth 8fed, 2018 oedd dim gwrthwynebiad.

Ni anfonwyd sylwadau pellach.

6. Cais Rhif C18/0673/41/LL – Codi estyniadau unllawr ar ochr a chefn yr eiddo ynghyd a chodi porth ar y blaen; Llwyn Dwyfog, Llangybi.

Dim gwrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod ar sail yr ymatebion gafwyd gan rai Cynghorwyr ac yna ymgynghori gyda'r Cadeirydd ac mae angen eu cadarnhau.

7. Cais C18/0722/41/LL – Cais ar gyfer darparu safle ar gyfer 15 uned teithiol gan gynnwys ystafell hamdden a toiledau; Fferm Afonwen, Chwilog.

8. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; tri Cynghorydd heb lofnodi.

9. Adroddiad Blyneddol ar Gae Chwarae Llangybi; wedi anfon hon ymlaen atoch.

10. **Materion yn y gymuned.**

Llanarmon

Llanystumdwy

Y Plu.

Rhoslan

Chwilog

Post Chwilog.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

11a. Pwyllgor Mynwent Llanystumdwy.

b. Ymddiswyddiad y Cynghorydd Marian Evans.

Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

13. Archwiliad Ariannol Allanol gan gwmni BDO.

14. Derbyn ail daliad y Praesept gan Gyngor Gwynedd £7,500-.

15. Derbyn arian bwrsari tuag at gwrs y SLCC yn Llandudno £32.50c.

16. Anfonebau angen eu talu:

a. Un Llais Cymru, dau gynrychiolydd i'r gynhadledd yn Llanellwedd ar Fedi 29ain, 2018, pris gostyngol o £85- x 2 = £170; taliad BACS wedi'i wneud.

b. SLCC, Cynhadledd yn Llandudno ar Fedi 5ed i'r Clerc a'r Darpar Glerc; £102.50 + TAW cyfanswm £123-, taliad BACS.

c. Mr Richard Hubbard am chwistrellu canclwm siapaneaidd a thorri balsam ar dir y Cyngor ger pont pentref Llanystumdwy £160-, taliad BACS.

ch. Criccieth Cleaning Ltd am lanhau'n chwarterol lochesi bws y Cyngor ar Orffennaf 31ain, 2018; £103- + TAW cyfanswm £123.60c, taliad BACS.

d. Capel Pencaenewydd am gael defnyddio'r festri Gorffennaf 5ed, £15-, taliad BACS.

17. Llythyr ymddiswyddiad y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

18. Llythyr yn derbyn swydd Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mrs Bethan Parry Jones, Derwen Gam, Chwilog.

19. Gliniadur a cho bach i'r Clerc a SAC newydd.

20. Cytundeb Cyflogaeth y Clerc a SAC newydd.

It is possible to get an English translation, contact the Clerk

